Symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion — a elwir yn Pontio

Mae'r ysbyty neu'r feddygfa hon yn cymryd rhan mewn darn o waith i helpu i weld lle y gellir gwella gofal ar gyfer pobl ifanc yn y dyfodol sy'n symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion.

Enw'r sefydliad sy'n casglu'r data yw'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion — NCEPOD.

Sefydliad cenedlaethol yw NCEPOD sy'n defnyddio data i helpu i wella ansawdd gofal ar gyfer cleifion y dyfodol yn y Deyrnas Unedig (DU). Rydym yn gwneud hyn trwy gasglu data ar gleifion o ysbytai a lleoedd eraill lle gallant dderbyn gofal. Ar gyfer y gwaith hwn, rydym yn casglu data ar bobl ifanc 13-24 mlwydd oed.

Ers dros 30 mlynedd, mae NCEPOD wedi cynnal astudiaethau ledled y DU, ac mae'r rhain wedi arwain at lawer o newidiadau yn y ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu.

Sut gallwch chi gymryd rhan

Os ydych chi'n berson ifanc neu'n rhiant/ gofalwr i berson ifanc sydd wedi symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion, ac yr hoffech chi gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp, neu lenwi arolwg ar-lein i rannu eich profiadau er mwyn helpu cleifion y dyfodol , cysylltwch â ni trwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost:
transition@ncepod.org.uk

Gofynnwch am ganiatâd gan eich rhiant/gofalwr os ydych chi o dan 16 oed*

Os ydych chi rhwng 13 oed a 24 oed, mae'n bosibl y bydd eich data gofal iechyd yn cael eu cynnwys yn ein gwaith. Byddwn yn cadw eich data yn ddiogel iawn tan ddiwedd y gwaith yn 2023, pan fydd y cyfan yn cael ei ddileu'n ddiogel.

Os nad ydych chi (os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn) neu eich rhiant/ gofalwr (os ydych chi o dan 16 oed)* eisiau i'ch data gael ei ddefnyddio, rhowch wybod i:
Marisa Mason, Prif Weithredwr, trwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost: mmason@ncepod.org.uk

Sut y gellir defnyddio eich data, a sut y gallwch chi ddweud NA!

Yn ogystal, gall rhiant neu ofalwr gysylltu â ni ar ran person ifanc 16 oed neu hŷn os ydynt yn Ddirprwy Gofal a Lles a benodwyd gan lys i weithredu ar eu rhan.

NCEPOD
www.ncepod.org.uk
@ncepod

Mae **NCEPOD** yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1075588
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant: 3019382
Ground Floor, Abbey House
74-76 St John Street, Llundain, EC1M 4DZ
FFÔN: 0207 2519060